

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n ei ysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Jon Gower




Mae Jon Gower yn awdur toreithiog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Enillodd gwobr Llyfr y Flwyddyn am ei nofel *Y Storiwr* yn 2012. Daw o Lanelli yn wreiddiol ond mae'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach, gyda'i wraig Sarah a'i ddwy ferch Elena ac Onwy.

Y Lolfa

www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell



Crynodeb:

Dyma gyfrol newydd sbon sy'n dathlu a chloriannu hanes 50 o enwogion o Gymru. Mae'r enwogion wedi eu dewis o wahanol gyfnodau mewn hanes - o Hywel Dda i Jade Jones. Hefyd, ceir arbenigwyr o feysydd gwahanol gan gynnwys y byd chwaraeon, llenyddiaeth, diwydiant, cerddoriaeth, gwleidyddiaeth, gwyddoniaeth a chelf. Bydd rhai yn gyfarwydd i blant heddiw, ond dyma gyfle i bawb ddysgu mwy am hanes enwogion Cymru, a chael eu hysbrydoli.

Dwedwch ychydig am eich llyfr newydd i blant *Cymru o Fri!* ...

Mae'r llyfr yn portreadu hanner cant o Gymry sy'n ysbrydoli, rhai'n hanesyddol, rhai'n fyw heddiw ac yn cynrychioli sawl maes - o wleidyddiaeth i wyddoniaeth, o fyd y campau i fyd y celfyddydau. Mae'n llyfr hardd, gyda gwaith celf gwych gan Efa Lois, delweddau sy'n denu'r llygad.

O ble ydych chi'n cael eich ysbrydoliaeth?

Drwy ddarllen, yn amlach na heb. Mae darllen gwaith awduron da yn gwella safon eich sgrifennu chi ac os edrychwch ar hanes bron unrhyw awdur maen nhw'n ddarllenwyr brwd, yn aml o blentyndod ymlaen.

Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?

Roedd llyfrgell y pentref, sef Pwll ger Llanelli, yn hynod, hynod bwysig i mi. Darllenas bob llyfr yn y lle, yn llythrennol, gan ddechrau yn yr adran blant, symud wedyn i'r clasuron - a dod ar draws Charles Dickens, a dotio - yna'r llyfrau ffeithiol, cyn darganfod ffuglen yn y pen draw. Yna, wrth dyfu'n hŷn dechreuais ddefnyddio llyfrgell Llanelli, oedd yn hynod o dda o ran cyfrolau annisgwyl. Ta beth oedd fy niddordeb ar y pryd roedd llyfrau perthnasol yno i mi.

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Darllen yw un o bleserau mawr bywyd ac mae cael rhywun i ddarllen stori i chi pan y'ch chi'n ifanc - cyn symud ymlaen i fwynhau cwmni rhai o'r bobl fwya diddorol yn y byd wrth ddarllen - yn rhywbeth arbennig iawn.

... mwy o G&A ar wefan

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru